



## Adroddiad Arolygu

**Cylch yn yr Ysgol**

**Ysgol Gynradd Llanfair-ym-Muallt  
Ffordd yr Ysbyty  
Llanfair-ym-Muallt  
LD2 3GA**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



**6 Mehefin 2023**

## Cylch yn yr Ysgol

Y math o ofal a ddarperir	Gofal Dydd Plant Gofal Dydd Sesiynol
Darparwr Cofrestredig	Cylch yn yr Ysgol
Lleoedd cofrestredig	24
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	21 Mehefin 2018
A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?	Nac ydy
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

### **Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.**

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

<a href="#"><u>Llesiant</u></a>	Da
<a href="#"><u>Gofal a Datblygiad</u></a>	Da
<a href="#"><u>Yr Amgylchedd</u></a>	Da
<a href="#"><u>Arweinyddiaeth a Rheolaeth</u></a>	Da

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae gan y plant lais cryf yn y gwasanaeth hwn. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gwrandao ar eu anghenion, eu hoffterau a'u teimladau a gallant wneud eu dewisiadau a'u penderfyniadau eu hunain. Mae'r plant yn mynegi mwynhad ac maent yn gyfforddus, yn gallu ymlacio ac wedi setlo'n dda. Caiff y plant gyfleoedd i ddilyn eu diddordebau ac maent yn mwynhau cymryd rhan yn y gweithgareddau sydd ar gael.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent wedi cwblhau'r hyfforddiant gorfodol ac mae ganddynt system briodol ar waith ar gyfer monitro cynnydd y plant a chyfarwyddo gweithgareddau. Maent yn rhyngweithio mewn ffordd gadarnhaol a charedig â'r plant.

Mae'r staff yn darparu amgylchedd glân ac addas. Mae'r ardal awyr agored yn darparu amgylchedd rhagorol i'r plant ddatblygu ystod o sgiliau. Mae'r amgylchedd dan do yn diwallu anghenion y plant ac yn gyfforddus. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau sy'n briodol ar gyfer gwahanol oedrannau a chymau datblygiad.

Mae'r trefniadau ar gyfer arwain a rheoli'r lleoliad yn dda ac yn drefnus. Mae systemau ar waith ar gyfer rheoli cofnodion, cynnal polisïau ac adolygu ansawdd y gofal. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn rhoi cyfleoedd da i'r staff ddatblygu'n broffesiynol. Maent yn awyddus iawn i sicrhau eu bod yn cynnig safon uchel o ofal i'r plant yn eu lleoliad. Maent wedi datblygu partneriaethau priodol ym mhob rhan o'r gymuned.

Mae gan y plant lais cryf. Maent yn cael cyfleoedd da i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am yr hyn sy'n effeithio arnynt a pha adnoddau yr hoffent eu defnyddio. Maent yn symud yn ddidrafferth rhwng gwahanol weithgareddau. Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus ac yn gyfforddus. Maent yn hynod fodlon, wedi setlo ac yn dangos mwynhad. Wrth iddynt chwarae yn yr awyr agored, clywsom un plentyn yn dweud, *"This is lots of fun."*

Mae cydberthnasau cadarnhaol rhwng y plant a'r staff. Mae'r plant yn mwynhau eu cwmni ac yn mynd atynt am gysur ac i gael sicrwydd pan fyddant yn ofidus. Gwelsom y plant yn mynd at aelodau'r staff ac yn eu cofleidio. Mae'r plant yn mynegi eu hunain yn dda ac yn hyderus i ofyn am gymorth pan fo angen, *"Can we have some more water please?"* Maent yn cael ymateb ar unwaith i'w ceisiadau a'u hawgrymiadau. Er enghraifft, pan ddywedodd plentyn, *"Can you play ball with me?"*, ymatebodd yr aelod o staff ar unwaith ac aeth i chwarae pêl â'r plentyn.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r staff yn gyson dda. Mae'r plant yn cydweithredu'n dda am eu hoedran. Mae ganddynt ddiddordeb brwd yn y cyfleoedd chwarae sydd ar gael iddynt ac maent yn ymgysylltu â'r cyfleoedd hynny. Er enghraifft, yn yr awyr agored, roedd y plant yn chwarae'n bwrpasol; gwelsom grŵp yn cydweithio i ychwanegu dŵr at yr hambwrdd gweithgareddau, gan greu golygfa byd bach deinosoriaid. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn dechrau gwneud ffrindiau. Gwelsom y plant yn rhannu adnoddau toes chwarae ac yn gofyn i'w gilydd, *'I'm your friend aren't I?'*. Gwelsom enghraifft hefyd o'r plant yn gwahodd ei gilydd i chwarae cuddio hefyd.

Mae'r plant yn dangos lefelau ymgysylltu uchel wrth chwarae a dysgu. Maent yn hyderus wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau hunangyfeiriedig. Yn ystod ein hymweliad, dewisodd y plant chwarae rôl yn y gornel gartref, chwarae â'r toes chwarae a chwarae yn yr ardal byd bach, ymhlith pethau eraill. Mae'r plant yn cyd-chwarae, gan rannu adnoddau, cyd-drafod a chymryd eu tro. Maent yn dilyn cyfarwyddyd y staff yn dda. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn gerddoriaeth yn y neuadd, roedd y plant yn cymryd eu tro ac yn cydweithio i gario offerynnau adeg tacluso.

Mae'r plant yn cael cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u hannibyniaeth yn unol â'u hoedran a'u cam datblygiad. Mae hyn yn eu galluogi i wneud rhai pethau drostynt eu hunain yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo, yn arllwys eu diodydd eu hunain yn ystod amser byrbryd, yn clirio eu platiau ac yn rhoi gwastraff yn y bin yn annibynnol. Mae rhai o'r plant yn cael ymdeimlad o gyflawniad o'r hyn a wnânt ac maent yn awyddus i rannu eu llwyddiannau, er enghraifft, maent yn teimlo balchder wrth ymgymryd â rôl helpwr yn ystod amser byrbryd.

Mae'r staff yn gwbl ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn rhoi polisïau a gweithdrefnau ar waith yn dda i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gweithgareddau corfforol y plant. Mae'r staff yn rhoi gweithdrefnau glanhau a hylendid da ar waith. Er enghraifft, maent yn annog y plant yn gyson i olchi eu dwylo'n rheolaidd. Yn ystod yr ymweliad, nid oedd unrhyw un o'r plant a oedd yn bresennol yn gwisgo cewyn, ond gwnaethom drafod y weithdrefn newid cewynnau â'r person â chyfrifoldeb, sy'n sicrhau bod preifatrwydd ac urddas y plant yn cael eu parchu. Mae gan bron bob aelod o'r staff dystysgrifau dilys ar gyfer hyfforddiant hylendid bwyd. Mae'r plant yn dod â ffrwythau o gartref ar gyfer byrbryd ac yn cael dewis o laeth neu ddŵr i'w yfed.

Mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn ymwybodol o weithdrefnau diogelu ac wedi cwblhau hyfforddiant priodol. Maent yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau i'w dilyn os oes ganddynt unrhyw bryderon am blentyn. Mae'r staff yn cwblhau ffurflenni damweiniau a digwyddiadau priodol, ac mae'r person â chyfrifoldeb yn cadw'r cofrestrau priodol.

Mae'r staff yn rheoli'r rhyngweithio mewn ffordd effeithiol. Maent yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol, gan drin y plant â charedigrwydd a gofal. Mae'r staff yn canmol y plant am eu hymdrechion a'u cyflawniadau er mwyn hybu eu hyder a'u hunan-barch, "*Wehey! Well done.*" Maent hefyd yn canmol y plant yn weledol gan ddefnyddio stampiwr. Maent yn annog y plant i ddweud 'os gwelwch yn dda' a 'diolch'. Mae'r staff yn rheoli ymddygiad y plant yn dda; gan eu annog i aros eu tro ac i fod yn garedig wrth eu ffrindiau. Mae'r plant yn hyderus i fynd at y staff os bydd angen cymorth arnynt. Er enghraifft, gofynnodd un plentyn i aelod o staff, '*Can you help me?*' wrth iddo ddefnyddio'r rhaff gydbwysu yn yr ardal awyr agored.

Mae'r staff yn cefnogi dysgu'r plant mewn ffordd gadarnhaol. Maent yn ymwybodol o ddatblygiad y plant ac yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau difyr. Mae'r person â chyfrifoldeb a'r staff yn cynllunio gweithgareddau yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru. Mae'r staff yn asesu cynnydd y plant ac yn monitro eu dysgu a'u datblygiad. Mae'r staff yn darparu amgylchedd dysgu hunangyfeiriedig yn bennaf, lle mae'r plant yn dilyn eu diddordebau drwy ddewis yr adnoddau y maent am eu defnyddio a chwarae gyda nhw.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn gwbl ymrwymedig i hybu'r Gymraeg.

Mae'r amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da iawn, gan ddarparu lle diogel a chyfforddus i'r plant ymlacio a dysgu. Mae'r lleoliad yn ddiogel ac yn cael ei gloi. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cynnal amgylchedd da er mwyn gwella profiadau'r plant. Maent wedi nodi risgiau ac wedi cymryd camau i'w lleihau neu eu dileu.

Mae asesiadau risg ar waith ac mae'r staff yn eu dilyn. Mae'r staff hefyd yn bwrw golwg ar unrhyw risgiau bob dydd; yn cofnodi gwiriadau cynnal a chadw ac yn cadw cofnod o'r bobl sy'n ymweld â'r lleoliad. Mae gweithdrefnau brys, mesurau tân a mesurau rheoli heintiau da ar waith. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod pob rhan o'r safle a'r adnoddau a ddefnyddir gan y plant yn lân. Rhoddwyd eitemau newydd yn lle'r eitemau a oedd wedi rhydu yn y gegin fwd yn syth ar ôl yr ymweliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn trefnu ac yn cofnodi ymarferion tân. Maent yn sicrhau bod pecyn cymorth cyntaf ar gael ar gyfer y lleoliad, ac mae pecyn ar wahân i'w ddefnyddio ar gyfer gwibdeithiau. Mae'r cofnodion yn dangos bod y staff yn archwilio'r pecyn yn rheolaidd.

Mae'r amgylchedd yn olau ac yn agored. Mae amrywiaeth dda o adnoddau yn yr ardaloedd chwarae a dysgu er mwyn sicrhau y gall y staff gynnig gweithgareddau ysgogol a chyffrous i'r plant. Mae ardal dan do fawr a lliwgar lle gall y plant fwyta a chwarae. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar yr adnoddau'n annibynnol drwy ddarparu dulliau storio, dodrefn a chyfarpar lefel isel. Mae hyn yn eu helpu i ddatblygu ac yn hwyluso cyfleoedd dysgu hunangyfeiriedig. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd chwarae yn yr awyr agored i hybu datblygiad y plant. Maent yn sicrhau y gall y plant fynd allan i'r awyr agored fel y dymunant. Mae'r ardal awyr agored fawr yn ddiogel ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd chwarae a chyfarpar da iawn gan gynnwys tŷ bach twt, ardaloedd plannu, cegin fwd, ardal laswelltog a chyfarpar dringo, ymhlith pethau eraill. Mae'r ardal awyr agored yn cynnig cyfleoedd rhagorol i'r plant ddatblygu amrywiaeth o sgiliau gan gynnwys gwneud marciau, chwarae synhwyraidd, chwarae rôl a datblygiad corfforol. Mae'r lleoliad yn defnyddio amrywiaeth eang o adnoddau naturiol ac adnoddau bywyd go iawn yn yr ardaloedd chwarae. Er enghraifft, yn yr ardal chwarae awyr agored, mae droriau o ddeunyddiau naturiol ar gael i'r plant sy'n cynnwys cregyn, cerrig, moch coed ac ati. Mae'r toiledau yn addas ac yn parchu preifatrwydd ac urddas y plant.

Mae'r amrywiaeth eang o adnoddau, teganau a llyfrau yn addas, yn lân ac mewn cyflwr da, sy'n golygu y gall y staff baratoi gweithgareddau yn hyderus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad a'r staff yn arddangos posterï Cymraeg sy'n lliwgar ac yn briodol, yn ogystal â gwaith celf y plant. Mae hyn yn rhoi ymdeimlad o gyflawniad i'r plant. Mae'r adnoddau a'r gweithgareddau yn hyrwyddo cydraddoldeb ac ymwybyddiaeth ddiwylliannol.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau fel darparwr. Maent yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth da ac maent wedi bodloni holl argymhellion yr arolygiad blaenorol. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad weledigaeth glir ar gyfer y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu. Mae'r datganiad o ddiben yn unol â'r rheoliadau a'r safonau gofynnol cenedlaethol yn dilyn yr ymweliad arolygu, ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth a gynigir. Mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ac yn cael eu hadolygu bob blwyddyn. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw'r holl gofnodion angenrheidiol mewn perthynas â chontractau'r plant a'u hanghenion a'u hoffterau. Maent wedi cael unrhyw ganiatadau priodol gan y rhieni. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw tystysgrifau cyfredol fel yswiriant atebolrwydd cyhoeddus a chofnodion presenoldeb priodol ar gyfer y plant a'r staff.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyflogi staff â chymwysterau addas. Maent yn cynnal cymarebau staffio da er mwyn diwallu anghenion y plant ac yn sicrhau bod yr holl wiriadau ar gyfer gwneud yn siŵr bod y staff yn addas yn cael eu cynnal. Fodd bynnag, ni chafodd y cymarebau staffio eu bodloni am gyfnod byr iawn ar un adeg yn ystod yr ymweliad arolygu, gan fod un aelod o'r staff wedi gadael yr ardal awyr agored i fynd â grŵp bach o blant i'r toiledau. Trafodwyd hyn yn ystod yr ymweliad a chafodd y mater ei gydnabod gan y person â chyfrifoldeb. Maent yn sicrhau bod pob aelod o'r staff wedi cael yr hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig diweddaraf, a'u bod wedi cwblhau unrhyw hyfforddiant gorfodol arall.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi cymorth effeithiol i'r staff ddeall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Cadarnhaodd y staff fod y person â chyfrifoldeb yn eu cefnogi'n dda iawn a'u bod yn teimlo'n hyderus yn mynd ati am gyngor neu gymorth ar unrhyw adeg. Mae'r staff yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd ac yn cael arfarniadau blynyddol ac mae'r sesiynau hyn yn awgrymu cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol. Mae'r staff yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn trafod eu gofynion ac unrhyw bryderon bob pythefnos yn ystod cyfarfodydd â'r person â chyfrifoldeb.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn adolygu'r gwasanaeth. Maent yn cwblhau adolygiadau blynyddol o ansawdd y gofal sy'n cynnwys barn y plant, y rhieni a'r staff. Mae partneriaethau â'r rhieni a'r ysgol y mae'r gwasanaeth wedi'i leoli ynddi yn dda. Mae'r lleoliad wedi cynnal sesiynau i rieni yn ddiweddar i rannu gwybodaeth am ddatblygiad y plant. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth i sicrhau bod y plant yn cael yr holl gymorth sydd ei angen i ddiwallu eu hanghenion unigol. Dywedodd y rhieni y gwnaethom siarad â nhw yn ystod yr ymweliad arolygu eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a bod eu plant yn mwynhau mynychu'r lleoliad. Cawsom holiaduron adborth wedi'u cwblhau hefyd yn dilyn yr ymweliad ac roedd yr ymatebion yn gadarnhaol iawn, "*The play leaders are outstanding. My child speaks with great fondness of them all. I have been so pleased with his experience with them. He wakes up every day asking if it's time to go to cylch*" yn ogystal ag "*Excellent, friendly and educational service. My son loves going and he is learning so much Welsh.*"





<b>Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio</b>	
<b>Statws</b>	<b>Ystyr pob un</b>
<b>Newydd</b>	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
<b>Heb Gyflawni</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

<b>Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth</b>		
<b>Rheoliad</b>	<b>Crynodeb</b>	<b>Statws</b>
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

## Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Graddau	Ystyr y graddau
<b>Rhagorol</b>	Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant.
<b>Da</b>	Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol.
<b>Digonol</b>	Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant.
<b>Gwael</b>	Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio.

### A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

**Dyddiad Cyhoeddi 14/08/2023**